



Adnodd yn Seiliedig ar Destun

Sbwriel morol



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth Gefndir

Sbwriel yw gwastraff yn y lle anghywir. Gellir dod o hyd iddo ar dir ysgol, mewn gwrychoedd, ar balmentydd, traethau ac yn ein parciau. Gall sbwriel amrywio o eitemau bach fel bonion sigarêts a gwm cnoi, i fagiau plastig, poteli a chaniau.

Mae'r rhan fwyaf o sbwriel yn deillio o bobl yn ei ollwng – naill ai'n fwriadol neu ar ddamwain – er bod rhywfaint o sbwriel yn dod o ffynonellau eraill, er enghraifft sbwriel wedi ei chwythu gan y gwynt neu ollygniadau domestig. Y prif fathau o sbwriel yw rhai'n ymwneud â smygu, melysion, diodydd a bwyd brys.



Mae sbwriel yn achosi niwed sylweddol i'n bywyd gwyllt a'n hamgylchedd, gyda'r effaith yn aml yn hirhoedlog ac yn ymestyn ymhell y tu hwnt i darddiad y broblem. Mae byggythiadau i fywyd gwyllt yn sgil sbwriel yn cynnwys anifeiliaid yn cael eu caethiwo, a all arwain at lwgu, camgymryd sbwriel am fwyd, anafiadau a gwenwyn bwyd.

Sbwriel morol

Mae ein cefnfor yn ffurfio tri chwarter ein planed. Waeth ble rydym yn byw, rydym i gyd yn dibynnu ar ein cefnfor am y bwyd yr ydym yn ei fwyta a'r aer yr ydym yn ei anadlu.

Mae sbwriel morol yn wastraff sy'n cael ei greu gan bobl sydd wedi cael ei ryddhau'n fwriadol neu'n ddamweiniol i ddyfrffordd, llyn, môr neu gefnfor. Mae cyfran fawr o sbwriel o'r tir yn troi'n sbwriel morol oherwydd y glaw, fflachlifo neu systemau carthffosiaeth. Mae sbwriel yn cael ei adael ar ein traethau, yn cael ei olchi i mewn i'n cefnforoedd, yn cael ei olchi i lawr draeniau ar ein strydoedd a'i fflysio i lawr ein toiledau. Amcangyfrifwyd bod tua 80% o falurion morol yn dod o ffynonellau ar y tir a bod yr 20% sydd yn weddill yn dod o'r cefnfor.

O un flwyddyn i'r llall, mae plastig yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r malurion a welir ar ein traethau, yn y DU ac mewn llawer o wledydd eraill ar draws y byd. Yn Hemisffer y De, mae hanner y malurion a geir ar draethau ynysoedd pellennig wedi eu gwneud o blastig ac mae tomen sbwriel enfawr ddwywaith maint UDA yn arnofio ar y Môr Tawel.

Mae cymaint ag 85% o'r sbwriel morol sydd wedi ei gofnodi wedi ei wneud o blastig a pholystyren.

Yn ôl Sky Ocean Rescue: "Bob munud, mae'r hyn sydd yn gyfwerth â llond lori o sbwriel yn mynd i mewn i'n cefnforoedd. Nid yw byth yn pydru a bydd yn aros yno am byth. Os nad oes unrhyw beth yn newid, erbyn 2050 gallai'r holl blastig yn y cefnfor bwyso mwy na'r holl bysgod. Mae plastig yn effeithio ar yr ecosystem gyfan, mae bywyd morol yn cael ei ddal ynddo, yn ei fwyta ac yn byw ynddo. Mae hefyd yn cael effaith uniongyrchol ar ein hiechyd, gan weithredu fel sbwng ar gyfer gwenwyn sydd yn gallu mynd i mewn i'n cadwyn fwyd."

Mae rhai mentrau gwych ar gyfer dileu sbwriel o'n dyfroedd, fodd bynnag, mae'r broblem mor fawr, dim ond rhan o'r ateb yw codi'r sbwriel yma ac mae angen mynd i'r afael â sbwriel ar y tir o safbwynt cynhyrchu a dosbarthu a gwaredu i'w atal rhag troi'n sbwriel morol.

Microblastigau

Defnyddir y term 'microblastigau' i gyfeirio at ddarnau o blastig sydd yn llai na phum milimetr o faint. Mae microblastigau yn wenwynig iawn, ac nid ydynt yn mynd i ffwrdd. Yn drist iawn, maent yn cael eu camgymryd yn aml am ysglyfaeth gan anifeiliaid morol ac adar y môr, gan fynd i mewn i'n cadwyn fwyd yn y pen draw.

Gall microblastigau ddod o amrywiaeth o ffynonellau: mae microblastigau sylfaenol yn cael eu gwneud yn fwriadol fel gleiniau bach neu dameidiau plastig. Mae llawer o'r microblastigau sy'n cael eu cynhyrchu (e.e. 'microgleiniau' polyethylene) yn gynhwysion mewn rhai mathau o bast dannedd, hylif sgwrio wyneb a golchwr corff, yn ogystal â chynnyrch colur, diaroglyddion a chynnyrch gofal personol eraill. Mae eraill yn belenni (a elwir yn beledi plastig), sef y dull y caiff plastig crai ei gludo i wneuthurwyr plastig.

Mae microblastigau eilaidd yn cael eu creu wrth i ddarnau mwy o blastig gael eu torri i lawr trwy rymoedd ffisegol a chemegol. Daw eraill o ddeunyddiau synthetig fel polyester, gan fod cannoedd o ddeunyddiau yn cael eu rhyddhau i mewn i'r dŵr bob tro y caiff ddillad polyester eu golchi.

Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi gwaharddiad ar ficroleiniau a ddefnyddir mewn cynnyrch 'golchi i ffwrdd'. Fodd bynnag, mae llawer o gynnyrch nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn cwmpas y gwaharddiad hwn sydd yn cynnwys cynhwysion microblastig ac sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd dyfrol.



Safbwynt Hinsawdd



Mae'n rhaid rheoli sbwriel a gwastraff yn gywir am y gall hyn gael effaith ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae carbon deuocsid a methan yn nwyon tŷ gwydr, sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang a newid hinsawdd.

Mae sbwriel sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn cynrychioli swm sylweddol o nwyon tŷ gwydr sydd eisoes wedi eu rhyddhau i'r atmosffer ac sydd wedi cyfrannu at newid hinsawdd.

Mae'n bwysig cofio bod pob math o blastig bron wedi ei wneud o danwydd ffosil. Gall golau'r haul a gwres achosi plastig i ryddhau nwyon tŷ gwydr pwerus. Wrth i'n hinsawdd newid, mae'r blaned yn mynd yn boethach, mae'r plastig yn torri i lawr i fwy o fethan ac ethylen, gan gynyddu cyfran newid hinsawdd, ac felly parhau'r cylch.

Gweithgaredd

Sbwriel Morol Beth yw'r broblem?



Wedi ei Anelu at CA2 Uwch

Nodau Byd-eang:

- 12- Defnydd Cyfrifol a Llygredd
- 13 - Newid Hinsawdd
- 14 - Bywyd o Dan y Dŵr

Nod – Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â sbwriel morol ac annog y cyfranogwyr y gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Amcanion:

- Archwilio'r mathau cyffredin o sbwriel sydd yn mynd i mewn i'r cefnfor.
- Deall sut mae sbwriel sy'n cael ei ollwng ar y tir yn mynd i mewn i'r cefnfor.
- Datblygu dealltwriaeth o'r effaith y mae sbwriel yn ei gael ar y cynefin morol.
- Creu Eco-weithredoedd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r sefyllfa sbwriel yn eu hysgol a'r gymuned leol.

Adnoddau:

- Cyfrifiaduron pen desg /Gliniaduron/I-Pads
- Papur/Pennau Ysgrifennu
- Clip fideo – <https://www.bbc.co.uk/newsround/42810179>
- Ffeithluniau – <https://cleancoasts.org/marine-litter>

Gwybodaeth Gefndir y Gweithgaredd:

Amcangyfrifir bod 80% o'r sbwriel a geir yn y cefnfor yn dod o ffynonellau ar y tir. Mae llawer o eitemau untro wedi eu gwneud o blastig ac yn troi'n sbwriel. Mae 8 miliwn o ddarnau o blastig yn mynd i mewn i'n cefnforoedd yn ddyddiol a chredir bod hyn yn cyfrannu at farwolaeth 100,000 o famaliaid morol a chrwbanod y môr ac 1 miliwn o adar y môr, niferoedd enfawr!

Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio'r ffordd y mae sbwriel yn mynd i mewn i'r cefnfor ac yn annog cyfranogwyr i wneud newid cadarnhaol i fynd i'r afael â phroblem sbwriel morol.



Gweithgaredd:

1. Cyflwynwch broblem sbwriel morol i'r disgyblion gan amlygu'r wybodaeth gefndir uchod – yn arbennig yr ystadegau.
2. Rhowch y disgyblion mewn grwpiau o 4/5. Cyflwynwch ymarfer mapiau meddwl gan ofyn iddynt ragweld y mathau mwyaf cyffredin o sbwriel yn y cefnfor? Ac i greu rhestr o'r 10 ffordd bennaf y mae sbwriel sy'n cael ei ollwng ar y tir yn mynd i mewn i'r cefnfor. Rhannwch feddyliau.
3. Dangoswch y clip byr canlynol o Newsround sy'n amlygu'r prif negeseuon sbwriel morol – <https://www.bbc.co.uk/newsround/42810179>
4. Dilynwch hyn trwy archwilio'r ffeithlun canlynol yn amlygu'r ffyrdd y mae sbwriel yn cyrraedd y cefnfor – <https://cleancoasts.org/marine-litter> . Gwiriwch y rhestr hon gyda'u 10 rhagfynegiad. Trafodwch y canlyniadau, oedd unrhyw beth yn syndod?
5. Gosodwch yr her i'r dosbarth – 'Sut rydym yn gwneud gwahaniaeth'? Dylai'r sgysiau gynnwys 'Sut maent yn teimlo am y mater'? Sut gallant godi ymwybyddiaeth o'r mater'? Y canlyniad terfynol fydd creu gweithredoedd unigol/grŵp/ysgol y gellir eu gweithredu i wneud gwahaniaeth.



Syniadau Ymestyn:

Archwiliwch hynt a helynt anifail morol penodol – crwbanod y môr, morloi, albatrosiaid ac ati a chreu cyflwyniad powerpoint i amlygu'r problemau i'w rannu gyda'u cyfoedion.

Crëwch wasanaeth yn amlygu canfyddiadau'r dosbarth yn ymwneud â sbwriel morol. Defnyddiwch hwn fel llwyfan i gyflwyno ac ysbrydoli'r ysgol gyfan i gymryd rhan a gweithredu.

Anogwch y dosbarth i fod yn beirianwyr y dyfodol. Dyfeisiwch a chynhyrchwch ddyluniad ar gyfer peiriant sydd yn gallu glanhau'r cefnfor o'r holl sbwriel.

Cysylltiadau Cwricwlwm

Dibenion:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Dyniaethau

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae dinasyddion gwybodus, hunan-ymwybodol yn ymgysylltu â heriau a chyfleoedd y mae'r ddynoliaeth yn eu hwynebu ac yn gallu gweithredu'n ystyrlon ac yn foesebol.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, wedi ei ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae'r byd o'n hamgylch yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13